

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 14/01/20

Yn bresennol: Y Cyngorwyr W.Li.Davies, A.Hopcyn, K.Jones, E.Lovgreen (yn y Gadair), R.Thomas, M.Sarnacki

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd E.R.Hughes

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Adborth ar Ddigwyddiadau Nadolig a'r Goleuadau Nadolig

Nodwyd y sylwadau canlynol:

- (1) Y dylid ystyried yr opsiwn o gael y Goeden Nadolig yn "Turf Square". Mae'n debyg bod lleoliad y goeden wrth y rinc iâ wedi tynnu rhywfaint oddi ar effeithlonrwydd a gwelededd y goeden.
- (2) Y gellid ystyried cael Coeden Nadolig go iawn ar y Maes a'r Goeden bresennol yn "Turf Square".
- (3) Nad oedd goleuadau Nadolig wedi ymestyn i bob man, er enghraifft pen uchaf Stryd Llyn, ac roedd sgaffaldau wedi bod yn broblem mewn rhai ardaloedd.
- (4) Nad oedd y sustem o reoli traffig wedi gweithio ar gyfer y Noson Nadoligaidd.
- (5) Nad oedd gorymdaith ffurfiol wedi bod o'r Maes i Theatr Seilo, ond mae'n debyg fod y tywydd garw yn ffactor yn hyn o beth. Ar gyfer 2020 gellid ystyried gorymdaith efo goleuadau neu ganhwyllau.
- (6) Nad oedd lleoliad Siôn Corn wedi gweithio'n rhy dda ar y Noson Nadoligaidd.
- (7) Bod y posteri ar gyfer y Noson Nadoligaidd a'r Gystadleuaeth Ffenestri Siopau wedi gweithio'n dda, ond roedd rhai pobl yn cymysgu rhwng y ddau.
- (8) Y dylid ystyried gwneud y Noson Nadoligaidd wythnos yn gynt yn 2020, yn ogystal ag ystyried Neuadd y Farchnad fel lleoliad yn lle Theatr Seilo.
- (9) Efallai y byddai 2 emyn gynulleidfaol wedi bod yn well na 4.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol) ac i:

- (1) Ystyried ymarferoldeb cael Coeden Nadolig go iawn ar gyfer 2020.**

- (2) Edrych ar opsiynau neu gwmnïau eraill o ran rheoli traffig ar gyfer Noson Nadoligaidd 2020.**
- (3) Y dylid cynnwys Ysgol Pendalar yn nhrefniadau Noson Nadoligaidd 2020.**

5. Trefniadau Diwrnod Gŵyl Dewi

Dosbarthwyd rhestr waith ar yr Orymdaith Gŵyl Dewi. Nid oedd y Clerc wedi cychwyn ar y trefniadau, a dod â'r rhestr gerbron y pwyllgor hwn oedd y cam cyntaf, oherwydd ei fod angen cadarnhad o ran yr union ddyddiad roedd yr Orymdaith am gymryd lle.

Nodwyd ymhellach:

- (1) Y dylid gwneud trefniadau o ran cau strydoedd ar gyfer yr Orymdaith.
- (2) Gan fod gwaith ar y Castell roedd angen cadarnhad pa bryd roedd y craen am gyrraedd gan y byddai hyn yn effeithio ar lwybr yr Orymdaith.
- (3) Y trafodwyd yn lle ddylai'r Orymdaith ymgynnull, wrth dafarn yr Anglesey o bosib.
- (4) Na fyddai'n bosib mynd trwy'r castell y tro hwn efo'r Orymdaith gan fod y tir yn rhy wlyb a mwdlyd.
- (5) Y dylid gofyn i ysgolion os oedd ganddynt syniadau o ran beth ddylai'r artist preswyl ei wneud.

Penderfynwyd derbyn y rhestr (unfrydol), ond nodi'r canlynol:

- (1) Gan fod y 1af o Fawrth yn disgyn ar ddydd Sul, cynnal yr Orymdaith ar ddydd Gwener, yr 28ain o Chwefror.**
- (2) Y dylid gwahodd mudiadau lleol, er enghraifft corau, sefydliadau crefyddol a chlybiau chwaraeon i gymryd rhan yn yr Orymdaith.**
- (3) Bod y Clerc yn ymgorffori unrhyw sylwadau ymarferol ynglŷn â'r gweithrediadau i mewn i'r rhestr waith.**

Gorffennodd y cyfarfod am 5.55 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____